# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Gorffennaf 1af 2025 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Rita Jones, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones ac Eifion Davies.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mehefin 3ydd 2025) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned **– cytunwyd symud ymlaen a'r cais ac i dderbyn prisiau gan C T Roberts Plant Hire, Brian Evans a'i fab a Tom Edwards am wneud y gwaith ym mynwent Frongoch.**
c) Ciosg ffôn pentref Llandderfel **– yn dilyn ymgynghoriad a'r gymuned cytunwyd i fabwysiadu'r ciosg a'i droi'n llyfrgell gymunedol.**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Cyfarfod Fforwm Adfywio y Bala a Phenllyn
ii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd.

b) Amrywiol.
i) Cyngor ar Bopeth – uno Conwy a Gwynedd.
ii) Un Llais Cymru - Nodau Datblygu Ymarfer Diweddariedig.
iii) Camu i'r Copa – Triathlon Y Bala 2025.
iv) Cylch yr Iaith – Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg.

v) Ceisiadau Cynllunio
**Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau.**

vi) Materion Ariannol
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau Ebrill – Mehefin) **Cymeradwywyd.**
b) HSBC – **cafwyd ein cynghori na fydd y banc yn codi'r ffi fisol o fis Gorffennaf ymlaen.**
c) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu:-**
Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh), TWE, Sion Jones (gwaith y mynwentydd). McAfee.

vii) Materion lleol.
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth Medi 2il yn Neuadd Sarnau.**